Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad (CA (3) 08-10)

Dyddiad: 11 Mawrth 2010
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 11 Mawrth 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC ac Alun Davies AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Morgan AC. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar ei rhan.

Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA406 - Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 26 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 22 Mawrth 2010

CA407 - Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 1 Mawrth 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

CA408 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 1 Mawrth 2010. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

CA404 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010
Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Ni nodwyd y dyddiad gosod. Ni nodwyd y dyddiad dod i rym.

Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reolau sefydlog 15.2 a/neu 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA405 - Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus)(Diwygio)(Cymru) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 26 Chwefror 2010. Yn dod i rym 19 Mawrth 2010

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad ar yr oedi o bedair blynedd a hanner cyn gweithredu Cyfarwyddeb 2003 ac y dylid gwneud hynny fel mater o bwysigrwydd cyfreithiol o dan Reol Sefydlog 15.3(ii). Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu'r mater hwn at sylw'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Rhinweddau Offerynnau Statudol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

CA402 - Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010
Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Ni nodwyd y dyddiad gosod. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiadau o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ceir copi ohonynt yn Atodiadau 1- 2.

Busnes arall

Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i ddatblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Lee Waters, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Sustrans Cymru.

Ystyried Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) - tystiolaeth lafar gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Fel rhan o'r gwaith o graffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) a gaiff ei wneud o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (caiff y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru", a chyflwyno

adroddiad ar hyn), cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu gwybodaeth bellach am ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ac sy'n egluro darpariaethau yn y Mesur arfaethedig, fel y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Cytunodd hefyd i anfon nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r hyn a ddysgwyd yn ystod y broses o sicrhau'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Gofalwyr, yn enwedig o ran cael caniatâd gan Whitehall a chyd-weithio gan Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru.

Ymholiadau'r Pwyllgor – gwybodaeth bellach

Nododd yr Aelodau dystiolaeth bellach ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i fonitro canlyniadau adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol: Atodlen 5 Gyfunol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7 Deddfau'r Cynulliad, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Eithriadau i Faterion) 2009 Gwaith craffu cyn deddfu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Chymhwysedd Deddfwriaethol o dan Atodlen 5 nas cynhwysir o dan Atodlen 7. Darparwyd tystiolaeth ychwanegol gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynghorwyr Cyfreithiol ystyried y wybodaeth ym mhapurau 9 a 10 - "Atodlen 5 Gyfunol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006" a "Atodlen 7 Deddfau'r Cynulliad" ac i ddarparu dadansoddiad pellach o Atodlen 7 fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol; unrhyw welliannau dilynol i'r pwerau hyn a'r newidiadau o ran cymhwysedd yn dilyn refferendwm, gan bwysleisio arwyddocâd y pwerau a gaiff eu colli. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i gael ei farn ef am y materion hyn.

Gohebiaeth y Pwyllgor: Rheoliadau'n deillio o Fesurau - Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

Nododd y Pwyllgor ymateb Darren Millar AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol lle amlygwyd y ffaith gan mai'r Rheoliadau a oedd yn deillio o'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 oedd yr Offeryn Statudol sylweddol cyntaf, efallai y byddai gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ddiddordeb mewn ystyried trefniadau craffu priodol mewn perthynas ag hwy.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gafwyd hyd yma mewn perthynas â'r ymchwiliad i ddatblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

11 Mawrth 2010

Atodiad 1

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-08-10)

CA402

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig) (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn nodi'r amgylchiadau lle gall cyflogwyr ("personau cyfrifol") ganiatáu i unigolion ymgymryd â gwaith yng Nghymru sy'n weithgarwch rheoledig fel y diffinnir yn adrannau 21a 22 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ("y Ddeddf"), ac nad oedd yr unigolyn eisoes yn ei wneud i'r cyflogwr hwnnw pan ddaeth y Rheoliadau hyn i rym. Bydd yn rhaid i'r cyflogwr naill ai fod yn fodlon nad yw'r unigolyn ar restr o rai sydd wedi'u gwahardd, nac ar restr sy'n ôl-ddyddio'r Ddeddf tra'i fod yn aros i gael ei drosglwyddo i un o'r rhestrau o rai sydd wedi'u gwahardd, neu fod wedi gweld tystysgrif cofnod troseddol fanylach ("Datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol") neu hysbysiad nad yw'r unigolyn ar restr o'r fath a gyhoeddwyd o fewn y 90 diwrnod blaenorol.

Gwaith craffu technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn.

Mae Rheoliadau 2 a 3 yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn dyroddi hysbysiad o dan Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn datgan nad yw person wedi ei wahardd o weithgarwch rheoledig mewn perthynas â phlant a/neu oedolion hyglwyf, yn hytrach na thystysgrif cofnod troseddol fanylach.

Ar hyn o bryd nid yw Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn darparu'r pŵer ar gyfer dyroddi hysbysiad o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Gweithgarwch Rheoledig a Darpariaethau Amrywiol) 2010 wedi eu gosod gerbron y Senedd ar eu ffurf ddrafft, i'w cymeradwyo gan y ddau dy. Mae'r Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yn gwneud darpariaeth debyg i'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru, ac yn ychwanegol at hynny, maent yn diwygio Adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 er mwyn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi hysbysiad yn hytrach na thystysgrif cofnod troseddol fanylach.

Mae'r memorandwm esboniadol yn cadarnhau y bwriedir i'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru ddod i rym ar 1 Ebrill 2010, ar yr un pryd â'r Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr.

Pe bai unrhyw oedi o ran y Rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yn dod i rym, byddai'n rhaid oedi gyda'r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru yn yr un modd.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

11 Mawrth 2010

Atodiad 2

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

(CA(3)-08-10)

CA405

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Teitl: Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ei heffaith, mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru, i Erthygl 12 o Gyfarwyddeb 96/82/EC ar reoli'r peryglon o ddamweiniau mawr yn ymwneud â sylweddau peryglus (O.J. Rhif L. 10, 14.1.1997, t.13)(Cyfarwyddeb Seveso II), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/105/EC (O.J. Rhif L. 345, 31.12.2003, t.97)(Cyfarwyddeb 2003).

Gwaith craffu technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

1. Mae Rheoliad 3(2) yn cyfeirio at Gyfarwyddeb 2003/105/EC fel Cyfarwyddeb y Cyngor. Mewn gwirionedd, mae'r Gyfarwyddeb yn deillio o Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

2. Mae'r Rheoliad Saesneg 5(2) yn nodi "(2) In paragraph (1) 'the established quantity', in relation to any land, means the maximum quantity which was present on, over or under the land at any one time within the period of 12 months ending on 19 March 2010." Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn defnyddio'r geiriau "unrhyw dir" i gyfateb i'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu uchod. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Roedd Cyfarwyddeb 2003 (a wnaed ar 16 Rhagfyr 2003) yn cynnwys dyddiad gweithredu o 1 Gorffennaf 2005 (Erthygl 2.1). Mae paragraff 5.1 y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn cyfeirio at ymgynghoriad sy'n dod i ben ar 28 Mehefin 2005. Er y gellid disgwyl

rhywfaint o oedi ar ôl y dyddiad hwn, mae oedi am bedair blynedd a hanner i'w weld yn anhygoel.

Mae arwyddocâd yr oedi hwn yn cael ei amlygu gan y gofyniad yn adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ar y Cynulliad Cenedlaethol (fel corff unedigbryd hynny) i weithredu rhwymedigaethau o dan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd. Trosglwyddwyd y gofyniad hwnnw gan Weinidogion Cymru drwy adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae hwn yn fater cyfreithiol pwysig o dan Reol Sefydlog 15.3(ii) ac mae'n rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol o dan Reol Sefydlog 15.3(iv) drwy fynd yn groes i'r ddarpariaeth ar gyfer rhoi'r ddeddfwriaeth honno ar waith.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

11 Mawrth 2010

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010

Craffu Technegol

Mae'r ddau bwynt a wneir mewn perthynas â chraffu technegol yn cael eu derbyn fel rhai dilys ac ymdrinnir â hwy ar unwaith wrth gyhoeddi.

Craffu ar yr haeddiannau

Ni fu modd bodloni'r terfyn amser ar gyfer trosi, sef Gorffennaf 2005 oherwydd yr angen am agwedd gydgysylltiol ar draws y Deyrnas Unedig ar y pwnc a ddylai 'caniatâd tybiedig' fod ar gael i ddiwydiant ar gyfer eu rhestr bresennol o sylweddau.

Ar achlysuron blaenorol pan gwtogwyd ar y meintiau dan reolaeth a bennir, mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio wedi cynnwys darpariaethau i ganiatáu i'r diwydiant cemegol hawlio 'caniatâd tybiedig' ar sail yr hyn oedd ganddynt ar safleoedd yn y deuddeg mis cyn i'r moddion rheoli ddod i rym. Ystyrid bod y math hwn o ddarpariaeth drosiannol yn briodol ar yr adeg honno er mwyn lleihau'r effaith ar ddiwydiant.
Ni chynhwyswyd caniatâd tybiedig yng nghynigion ymgynghorol 2005 oherwydd cydnabod fod caniatâd tybiedig yn anghyson â chwmpas ac amcan y Gyfarwyddeb. Cafwyd chwech o ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yng Nghymru. Un ymgynghorai yn unig (Cymdeithas y Gyfraith) a leisiodd bryderon ynglŷn â phynciau trosiannol.

Yn Lloegr, fodd bynnag, lleisiodd y diwydiant petroliwm wrthwynebiad i'r diffyg darpariaeth ar gyfer caniatâd tybiedig yn y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt. Arafodd y pryderon hyn y gwaith ar y rheoliadau ar draws y Deyrnas Unedig. Ail gychwynnodd y gwaith ym mis Ebrill 2009 pan ddyroddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol bapur ymgynghorol pellach oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer caniatâd tybiedig. Wedi trafodaethau helaeth rhwng gweinyddiaethau'r DU, fe wnaed rheoliadau Lloegr (Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Lloegr) 2009) heb ddarpariaethau ar gyfer caniatâd tybiedig.

Nid oedd ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig caniatâd tybiedig nac unrhyw fath arall o ddarpariaeth drosiannol. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fodd bynnag, cafodd trefniadau trosiannol sy'n rhoi chwe mis i weithredwyr sicrhau unrhyw ganiatadau ychwanegol sy'n angenrheidiol eu cynnwys yn y Rheoliadau.

Mae'n hanfodol fod y rheoliadau hyn yn aros fel y'u gwnaed, gan eu bod yn cynrychioli cydymffurfiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru â rhwymedigaeth y Deyrnas Unedig i drosi'r Gyfarwyddeb. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r trosiant hwn eisoes rai blynyddoedd yn hwyr. Mae hyn yn dorcyfraith, neu'n 'doriad' o rwymedigaeth y DU tuag at yr Undeb Ewropeaidd. Caiff y Comisiwn Ewropeaidd ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Aelod-wladwriaeth yn y Llys Barn Ewropeaidd mewn achosion o doriad. Mewn achosion megis yr un presennol, pan fo Aelod-wladwriaeth (neu ran o Aelod-wladwriaeth) wedi methu â throsi Cyfarwyddeb mewn pryd, mae Cytuniad Lisbon wedi cyflymu'r broses fel y caiff y Comisiwn, wrth ddwyn achos gerbron y Llys Barn Ewropeaidd, hefyd wneud cais am ddirwyon ac/neu am gosbau ar unwaith. Mae hyn yn cyflymu'r broses o ryw 2 flynedd ar gyfartaledd. Byddai unrhyw ddirwyon am fethu â chydymffurfio mewn perthynas â'r rheoliadau presennol yn daladwy gan Lywodraeth y Cynulliad fel a osodir yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth ar Ddatganoli a Chytundebau Atodol. Fe ddichon dirwyon/cosbau fod yn gannoedd o filoedd o bunnau'r dydd.